Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CYNLLUN STRATEGOL 2025-2030

# CYNNWYS


Ein Cenhadaeth 2

Ein Gweledigaeth 2

Cyflwyniad 3

Crynodeb 4

Ein Gwerthoedd 5

Cyd-destun strategol 6

Blaenoriaethau Strategol 7

Galluogwyr 11




# CYFLWYNIAD



***Rwy'n falch iawn o gyflwyno Cynllun Strategol PCYDDS 2025-2030, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad cyffredin i brifysgol a ddiffinnir gan ei phobl, ei lle a'i diben.***

Mae ein diben yn glir: trawsnewid bywydau trwy addysg, arloesi a chydweithio. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, effaith a chyfleoedd, gan sicrhau bod PCYDDS yn parhau i chwarae rhan ganolog yn llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y cymunedau a wasanaethwn – yng Nghymru, y DU a thramor.

Mae ein staff, ein myfyrwyr, ein partneriaid a'n cymunedau yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae eu hangerdd, eu creadigrwydd a'u gwytnwch yn parhau i siapio sefydliad sy'n falch o'i dreftadaeth ac yn uchelgeisiol ar gyfer ei ddyfodol.

Mae ein hymrwymiad i roi dysgwyr yn gyntaf yn parhau i fod yn ganolog i'n cenhadaeth. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr i ddarparu profiadau dysgu rhagorol sy'n galluogi pob dysgwr i gyrraedd eu potensial llawn. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo gwerth addysg, gan ddileu rhwystrau a chreu llwybrau i bob unigolyn gael mynediad at addysg uwch, beth bynnag fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau.

Ac mae ein lle yn bwysig. Mae ein campysau wedi gwreiddio mewn cymunedau bywiog ac amrywiol, ac rydym yn cydnabod y cyfrifoldeb a'r fraint o gyfrannu at eu datblygiad. Byddwn yn cryfhau ein partneriaethau strategol, a'n gweithgareddau arloesi a menter i greu cyfleoedd sydd o fudd i gymdeithas gyfan.

Wrth i ni symud ymlaen, mae'r strategaeth hon yn uchelgeisiol ac wedi'i gwreiddio yn ein gwerthoedd. Mae'n cynrychioli ymdrech ar y cyd i sicrhau bod PCYDDS nid yn unig yn lle ar gyfer dysgu, ond hefyd yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol sy'n cael ei yrru gan ein pobl, wedi'i wreiddio yn ein lleoedd, ac wedi'i uno gan ein diben.

**Yr Athro Elwen Evans, CB**
**Is-Ganghellor**

# EIN CENHADAETH:

## TRAWSNEWID ADDYSG; TRAWSNEWID BYWYDAU

Rydym yn trawsnewid bywydau trwy ddarparu addysg, arloesi a menter sy'n bodloni anghenion datblygol cymdeithas.

# Ein GWELEDIGAETH

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein myfyrwyr a'u dyfodol yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn cael ein cydnabod fel darparwr blaenllaw ar gyfer addysg drydyddol hyblyg, gymhwysol sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr. Byddwn yn hyrwyddo dysgu gydol oes ac ehangu cyfranogiad, gan alluogi dysgwyr o bob oed a chefndir i gyflawni eu potensial. Rydym yn falch o'n treftadaeth Gymreig a byddwn yn dyfnhau ein gwaith cydweithredol gyda phartneriaid i ymdrin ag anghenion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd a llesiant ein cymunedau prifysgol yng Nghymru, y DU a ledled y byd.





# EIN GWERTHOEDD

## Wrth wraidd popeth a wnawn mae ein *gwerthoedd*:

- Rydym yn gynhwysol ac yn ymfalchïo mewn dileu rhwystrau rhag cymryd rhan er mwyn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.
- Rydym yn gydweithredol, gan weithio gyda'n staff, ein myfyrwyr a'n partneriaid er lles ein rhanbarth[au] a sicrhau ein bod wedi ein cysylltu â'r byd yn ehangach.
- Rydym yn falch i ddathlu Cymru a'i chymeriad unigryw drwy hyrwyddo diwylliant, treftadaeth ac iaith y wlad.
- Rydym yn gyfrifol, wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy ac i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

# CRYNODEB

**Mae ein Cynllun Strategol wedi'i ddatblygu o amgylch *tair egwyddor graidd* sy'n sail i'n penderfyniadau:**

- ***Ein pobl*** – sy'n gyrru ein llwyddiant, ac rydym wedi ymrwymo i'w helpu i ffynnu.
- ***Ein diben*** – sef creu cyfleoedd addysgol teg a hygyrch i bob myfyriwr, a chymhwyso ein hymchwil er budd ein cymunedau.
- ***Ein lle*** – sy'n ganolog i'n hunaniaeth fel prifysgol gymunedol a sefydlwyd yng Nghymru ond sydd â chyrhaeddiad cenedlaethol a rhyngwladol.



## Ein chwe *blaenoriaeth strategol* yw:

1. Darparu addysg a phrofiad myfyrwyr personol sy'n rhoi dysgwyr yn gyntaf ac yn eu cefnogi i wireddu eu huchelgeisiau.

2. Datblygu a chynnal rhaglenni sy'n canolbwyntio ar sgiliau, sy'n berthnasol i gyflogwyr ac sy'n bodloni anghenion ein myfyrwyr a'u cyflogadwyedd.

3. Manteisio ar gryfderau grŵp PCYDDS i ddarparu darpariaeth drydyddol integredig sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr a llwybrau clir trwy addysg bellach ac uwch.

4. Ehangu effaith ein hymchwil, ein harloesi a'n sgiliau cymhwysol, a arweinir gan arfer, mewn partneriaeth â chyflogwyr i greu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein cymunedau a'n myfyrwyr.

5. Cefnogi, ymgorffori a chryfhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein cymuned staff, ein darpariaeth, ymgysylltiad ac arfer ar gyfer dysgwyr.

6. Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, gan alluogi buddsoddi yn ein cenhadaeth a'n pobl.

## Wrth wraidd ein blaenoriaethau mae *galluogwyr allweddol*:

- ***Pobl, diwylliant a chydraddoldeb***, sy'n meithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol, gan gefnogi ein harweinwyr a hyrwyddo diwylliant sy'n gwerthfawrogi gwelliant parhaus.

- ***Seilwaith digidol a ffisegol***, gan sicrhau bod ein hystad ddigidol a ffisegol yn addas i'r diben.

- ***Cynaliadwyedd Amgylcheddol***, gan sicrhau sefydliad gwydn a chyfrifol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.





# CYD-DESTUN STRATEGOL

**Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg heriol i'r sector addysg uwch. Mae prifysgolion y DU yn wynebu pwysau ariannu sylweddol, cystadleuaeth gynyddol, llai o gefnogaeth gan y llywodraeth, dirywiad cyflym yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn y DU, a chostau gweithredu cynyddol. Mae'r sector hefyd yn dal i ddod dros effeithiau a chanlyniadau pandemig y Covid.**

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r mwyafrif o brifysgolion ledled y DU wedi cyhoeddi mesurau arbed costau, gan gynnwys cau cyrsiau a thorri swyddi.  Ni all Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant osgoi'r heriau hyn ond mae wedi gweithredu mesurau sydd wedi rhoi ein Prifysgol mewn sefyllfa gref, er gwaethaf y pwysau. Mae'r cynllun strategol hwn yn amlinellu sut y bydd y Brifysgol yn adeiladu ar y sefyllfa hon.

Rydym yn arbennig o falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud o ran ansawdd ein profiad myfyrwyr. Rydym yn gyntaf yng Nghymru ac yn ail yn y DU am foddhad myfyrwyr yn nadansoddiad y Times a'r Times Higher Education Supplement o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025, a ni yw  Prifysgol y Flwyddyn 2026 am Ansawdd Addysgu yn ôl y Times a'r Sunday Times 2026.



Mae Medr, y corff rheoleiddio ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru, wedi nodi ei amcan i ddarparu system addysg ôl-16 hyblyg a chydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr. Mae ein blaenoriaethau strategol yn mapio uchelgeisiau Medr yn agos yn ogystal â pholisïau nodedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi cynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol wrth wraidd gweithrediadau'r brifysgol, a Cymraeg 2050, y strategaeth sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Rydym yn sefydliad sydd â'r genhadaeth graidd o ehangu cyfranogiad mewn addysg a hwyluso mynediad trwy amrywiaeth o fodelau darparu arloesol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ein Hathrofa Dysgu Canol Dinas, darpariaeth prentisiaethau a rhaglenni cymunedol. Fel un o'r darparwyr prentisiaethau mwyaf yng Nghymru, rydym yn datblygu ac yn darparu cyrsiau ar y cyd â chyflogwyr i sicrhau bod theori ac arfer yn cyfuno i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau i fyfyrwyr.

O ganlyniad, mae ein rhaglenni yn seiliedig ar bortffolio craidd o raddau israddedig ac ôl-raddedig amser llawn sy'n denu ystod eang o fyfyrwyr, o fyfyrwyr aeddfed i fyfyrwyr traddodiadol sy'n gadael yr ysgol a'r coleg. Rydym yn cynnig amrywiaeth o lwybrau i astudio a fframwaith cymorth cryf i alluogi myfyrwyr i gydbwyso eu hastudiaethau ag ymrwymiadau gwaith a theulu, beth bynnag fo'u cefndir.

Mae ein strwythur grŵp, sy'n cynnwys y darparwyr addysg bellach Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, yn ein galluogi i gefnogi cynnydd integredig a llwybrau di-dor o addysg Lefel 3 i Lefel 4, a thu hwnt. Bydd ein partneriaethau AB-AU yn rhan annatod o'n strategaeth yn y dyfodol. Mae gennym hefyd bartneriaethau rhyngwladol cryf ac mae gennym gyfleoedd i ddatblygu'r rhain ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Gellir priodoli ein llwyddiant i nifer o ffactorau, gan gynnwys: ein staff; lefel yr ymgysylltu rhyngom ni a'n myfyrwyr; y profiad personol a gynigiwn; yr amgylchedd cefnogol a ddarparwn, a'r partneriaethau gwerthfawr sydd gennym â'r cyflogwyr sy'n siapio ein rhaglenni, yn cefnogi ein myfyrwyr, ac yn dilyn ymchwil ac arloesi cydweithredol gyda ni. Mae'r cryfderau a'r profiadau hyn yn darparu sylfaen ar gyfer ein cyfeiriad strategol ac yn sail iddynt mae tair egwyddor graidd sy'n rhan annatod o'n cenhadaeth.

- ***Ein pobl*** – sy'n gyrru ein llwyddiant, ac rydym wedi ymrwymo i'w helpu i ffynnu: Mae ein cydweithwyr, ein myfyrwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yn ganolog i bopeth a wnawn ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol lle gall pawb lwyddo.

- ***Ein diben:*** Rydym yn creu cyfleoedd addysgol teg a hygyrch i roi i fyfyrwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wireddu eu huchelgeisiau gyrfa, beth bynnag fo'u cefndir, ac rydym yn cymhwyso ein hymchwil er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol ein cymunedau.

- ***Ein lle:*** Rydym yn sefydliad sydd â chysylltiadau dwfn, sydd wedi'i angori yn lleol ac sy'n cael ei yrru gan y gymuned. Rydym yn falch o'n treftadaeth Gymreig yn ogystal â'r ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda chymunedau ledled y byd.

# BLAENORIAETHAU STRATEGOL

**Gan ystyried y cyd-destun strategol hwn, mae'r Cynllun hwn yn nodi chwe Blaenoriaeth Strategol a fydd yn siapio ein twf, ein gwytnwch a'n heffaith hyd at 2030:**

1. Darparu addysg a phrofiad myfyrwyr personol sy'n rhoi dysgwyr yn gyntaf ac sy'n eu cefnogi i wireddu eu huchelgeisiau.
2. Datblygu a chynnal rhaglenni sy'n canolbwyntio ar sgiliau, sy'n berthnasol i gyflogwyr ac sy'n bodloni anghenion ein myfyrwyr a'u cyflogadwyedd;
3. Manteisio ar gryfderau grŵp PCYDDS i ddarparu darpariaeth drydyddol integredig sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr a llwybrau ehangach trwy addysg bellach ac uwch;
4. Ehangu effaith ein hymchwil, ein harloesi a'n sgiliau cymhwysol, a arweinir gan arfer, mewn partneriaeth â chyflogwyr i greu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein cymunedau a'n myfyrwyr;
5. Cefnogi, ymgorffori a chryfhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein darpariaeth, ymgysylltiad ac arfer ar gyfer dysgwyr;
6. Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, gan alluogi buddsoddi yn ein cenhadaeth a'n pobl.





# DARPARIAETH STRATEGOL 1:

**Darparu addysg a phrofiad myfyrwyr personol sy'n rhoi dysgwyr yn gyntaf ac sy'n eu cefnogi i wireddu eu huchelgeisiau.**

- Daw ein myfyrwyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd, profiadau a gwledydd. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ein corff myfyrwyr amrywiol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi eu dysgu a'u llesiant, ac i sicrhau bod eu taith academaidd yn foddhaol ac yn llwyddiannus.
- Rydym wedi ymrwymo i wrando ar ein myfyrwyr a gweithio mewn partneriaeth â nhw i wella eu hymdeimlad o berthyn i'n cymuned brifysgol a chefnogi eu llwyddiant.
- Bydd ein hymrwymiad i sicrhau bod maint dosbarthiadau yn gymharol fach yn parhau i fod yn nodwedd o'n profiad myfyrwyr, gan ein galluogi i ddeall a chefnogi anghenion addysgol pob dysgwr.

## SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS1.1** | Cynyddu canran y myfyrwyr sy'n cwblhau'r dyfarniad a fwriadwyd ganddynt |
| **BS1.2** | Cynyddu cyfraddau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn |
| **BS1.3** | Cynnal sgoriau dros feincnod y sector yn yr NSS |
| **BS1.4** | Lleihau canran y myfyrwyr sy'n gadael y Brifysgol o fewn eu blwyddyn gyntaf o astudio |
| **BS1.5** | Lleihau'r bylchau dyfarnu graddau |





# BLAENORIAETH STRATEGOL 2:

**Datblygu a chynnal rhaglenni sy'n canolbwyntio ar sgiliau, sy'n berthnasol i gyflogwyr ac sy'n bodloni anghenion ein myfyrwyr a'u cyflogadwyedd.**

- Mae ein cyrsiau wedi'u cynllunio a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni neu'n rhagori ar anghenion cyrff achredu, cyflogwyr partner, a'r dirwedd gyflogaeth sy'n newid. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein holl raglenni yn cael eu llywio gan ddiwydiant a chyflogwyr fel bod modd cymhwyso ein cynnwys academaidd yn ymarferol.
- Er mwyn galluogi dysgwyr i gael mynediad at raglenni ar draws y sbectrwm addysg drydyddol ac i gyflawni eu huchelgeisiau, byddwn yn darparu ystod o gyrsiau hyblyg gan gynnwys y rhai mewn cydweithrediad â chyflogwyr.

## SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS2.1** | Cwblhau'r Adolygiad Cwricwlwm erbyn 2027/28 |
| **BS2.2** | Datblygu Strategaeth Cyflogadwyedd newydd a gweithredu'r strategaeth yn dilyn hynny |
| **BS2.3** | Lansio Gwasanaeth Cyflogadwyedd sy'n cefnogi ein cwricwlwm |
| **BS2.4** | Gwelliant yng nghyfran y dysgwyr sy'n sicrhau Cyflogaeth Sgiliau Uchel mewn arolygon Hynt Graddedigion |
| **BS2.5** | Gwella ymgysylltiad myfyrwyr â chyfleoedd entrepreneuriaeth |

# BLAENORIAETH STRATEGOL 3:

**Manteisio ar gryfderau grŵp PCYDDS i ddarparu darpariaeth drydyddol integredig sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr a llwybrau ehangach trwy addysg bellach ac uwch.**

- Ein huchelgais yw mireinio a symleiddio ein strwythur grŵp i sicrhau dull mwy cydlynol ac effeithiol o ran llywodraethu, cyflawni gweithredol ac addysg.
- Byddwn yn gwella ein harlwy cyrsiau drwy adeiladu llwybrau dysgwyr cliriach ar draws ein rhanbarthau, gan weithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod sgiliau ar gyfer y dyfodol yn cael eu gwreiddio drwy'r cwricwlwm, gan gynnwys y rhai i helpu i adeiladu Cymru ddwyieithog.
- Byddwn hefyd yn ceisio darparu opsiynau dysgu mwy hyblyg, gan gynnwys dysgu cyfunol, cyrsiau byr, a rhaglenni modwlar i ddarparu ar gyfer dysgwyr gwahanol, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol mewn gwaith.

## SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS3.1** | Strwythur grŵp symlach i sicrhau ymagwedd fwy cydlynol at lwybrau a phrofiad dysgwyr |
| **BS3.2** | Strwythur llywodraethu integredig ar draws grŵp PCYDDS |
| **BS3.3** | Cwblhau'r adolygiad cwricwlwm ar draws rhaglenni AB ac AU y Grŵp |
| **BS3.4** | Dull cyson o ran cymorth myfyrwyr ar draws y Grŵp |
| **BS3.5** | Cofrestriad llwyddiannus gyda Medr fel darparwr addysg drydyddol |
| **BS3.6** | Arbedion effeithlonrwydd gweithredol a geir drwy rannu adnoddau ac amrywio ffrydiau incwm |
| **BS3.7** | Cynnydd yn nifer y myfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad |





# BLAENORIAETH STRATEGOL 4:

## Ehangu effaith ein hymchwil, ein harloesi a'n sgiliau mewn partneriaeth â chyflogwyr i greu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein cymunedau a'n myfyrwyr

- Trwy ymgorffori ymchwil a luniwyd ar y cyd mewn cyd-destunau byd go iawn, mae'r Brifysgol yn ceisio creu effaith wirioneddol sy'n cefnogi arloesi, cynhyrchiant a datblygiad economaidd rhanbarthol yn uniongyrchol. Ein dull yw sicrhau bod deilliannau ymchwil yn academaidd drylwyr tra hefyd yn berthnasol ac o fudd i gymdeithas.
- Byddwn yn datblygu ein hecosystem ymchwil ac arloesi ymhellach i gysylltu arbenigedd academaidd ag anghenion cyflogwyr, gan feithrin cyfnewid gwybodaeth a datblygu atebion ymarferol ar gyfer twf economaidd, sgiliau lefel uchel a dysgu gydol oes. Ar yr un pryd, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin ei chryfderau ymchwil traddodiadol.
- Trwy integreiddio ein treftadaeth gyfoethog, ddisgyblaethol ag ymchwil gymhwysol gyfoes, byddwn yn cynnal portffolio nodedig sy'n cyfrannu at ddadl ysgolheigaidd tra hefyd yn llywio polisi ac arfer. Mae'r pwyslais deuol hwn ar arloesi a thraddodiad yn sicrhau y bydd ein hymchwil yn parhau i fod yn amrywiol, yn effeithiol ac yn gysylltiedig yn fyd-eang.

### SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS4.1** | Strategaeth ymchwil ac arloesi newydd yn canolbwyntio ar effaith economaidd a chymdeithasol |
| **BS4.2** | Twf mewn incwm ymchwil |
| **BS4.3** | Twf mewn incwm arloesi a chyfnewid gwybodaeth |
| **BS4.4** | Cynnydd yn nifer y cwmnïau newydd a gefnogir |
| **BS4.5** | Cyflwyniad o ansawdd uchel i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2029 |

# BLAENORIAETH STRATEGOL 5:



## Cefnogi, ymgorffori a chryfhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg ar draws ein darpariaeth, ymgysylltiad ac arfer ar gyfer dysgwyr

- Mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi, ymgorffori a chryfhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a’r defnydd o’r Gymraeg ar draws pob agwedd o’n darpariaeth, ymgysylltiad ac arfer academaidd ar gyfer dysgwyr. Trwy ein Strategaeth Iaith Gymraeg byddwn yn parhau i feithrin amgylchedd cynhwysol, dwyieithog sy’n grymuso dysgwyr i astudio a ffynnu yn eu dewis iaith.

- Byddwn yn ceisio ehangu ein harlwy cyfrwng Cymraeg, gan wella gallu staff i addysgu a chefnogi dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, a hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

- Trwy brosesau adolygu a dylunio parhaus o’n cwricwlwm, byddwn yn nodi cyfleoedd cynnydd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr o fewn ein harlwy addysgol, gan adeiladu llwybrau sy’n cynyddu hyder a defnydd.

## SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS5.1** | Cynnydd yn nifer y staff, myfyrwyr ac aelodau o’r gymuned ehangach sy’n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg ffurfiol yn PCYDDS |
| **BS5.2** | Nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy’n cael eu recriwtio ar raglenni astudio penodedig |
| **BS5.3** | Canran/cyfran y myfyrwyr sy’n hanu o Gymru sy’n ymgymryd â 5 neu fwy o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **BS5.4** | Canran/cyfran y myfyrwyr sy’n hanu o Gymru sy’n ymgymryd â 40 neu fwy o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **BS5.5** | Cynnydd yng nghanran y staff sydd â Chymraeg ysgrifenedig a llafar mewn rolau darpariaeth academaidd sydd wedi’u hadnabod fel meysydd blaenoriaeth |
| **BS5.6** | Cynnydd yng nghanran y staff sydd â Chymraeg ysgrifenedig a llafar mewn rolau gwasanaeth proffesiynol sydd wedi’u hadnabod fel meysydd blaenoriaeth |



# BLAENORIAETH STRATEGOL 6:

**Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, gan alluogi buddsoddi yn ein cenhadaeth a'n pobl.**

- Mae strategaeth ariannol y Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor fel conglfaen ei gweledigaeth strategol, gan gynnal iechyd cyllidol a chreu gallu i fuddsoddi'n ystyrlon yn nhwf ein cenhadaeth academaidd, ein rhagoriaeth ymchwil, a llesiant ein pobl. Trwy weithredu ein strategaeth ariannol, gallwn barhau'n ystwyth, yn arloesol ac yn wydn mewn tirwedd addysg uwch sy'n esblygu'n gyflym.
- Byddwn yn ceisio gwella effeithlonrwydd gweithredol lle bo angen, trwy nodi a gweithredu mesurau effeithlonrwydd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys trawsnewid digidol a rhannu gwasanaethau.
- Byddwn yn buddsoddi cyfalaf yn ddoeth ac yn gall fel rhan o'r strategaeth ariannol trwy wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata wrth fynd ar drywydd ein huchelgeisiau twf.

## SUT Y BYDDWN YN MESUR LLWYDDIANT

| | |
|---|---|
| **BS6.1** | EBITDA o £13m neu Elw EBITDA o 10.0%, pa bynnag un yw'r uchaf |
| **BS6.2** | Diffyg darpariaeth cyllido dyledion penodol, gwariant cyfalaf heb fod yn fwy nag EBITDA llai costau llog ac ad-daliadau ar fenthyciadau tymor |
| **BS6.3** | Enillion ar brosiectau/gwariant cyfalaf |
| **BS6.4** | Cyrraedd y niferoedd targed cofrestru a gyllidebwyd |
| **BS6.5** | Cyrraedd y niferoedd targed cofrestru sy'n dychwelyd |
| **BS6.6** | Ehangu niferoedd myfyrwyr Darpariaeth TNE |
| **BS6.7** | Cynnydd yn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol |

# GALLUOGWYR

## Wrth wraidd y blaenoriaethau hyn mae galluogwyr allweddol:

### Galluogydd 1:
***Pobl, diwylliant a chydraddoldeb.***

Byddwn yn meithrin amgylchedd cynhwysol a chynhaliol sy'n denu ac yn grymuso ein staff, ac sy'n hyrwyddo diwylliant o  welliant parhaus. Byddwn yn datblygu ac yn arfogi ein harweinwyr ar bob lefel i ysgogi ymgysylltiad staff a byddwn yn sicrhau bod ein strwythurau llywodraethu yn gadarn ac yn briodol i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau.

### Galluogydd 2:
***Trawsnewid digidol a seilwaith ffisegol.***

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein hystad ddigidol a ffisegol yn addas i'r diben ac yn ein galluogi i ddarparu mannau dysgu, cydweithio ac arloesi eithriadol.

### Galluogydd 3:
***Cynaliadwyedd Amgylcheddol***

byddwn yn parhau i ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol yng nghenhadaeth graidd y Brifysgol, gan sicrhau sefydliad gwydn a chyfrifol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wrth weithio tuag at weithredu ein targedau Carbon Sero-Net.





# CYNLLUNIO STRATEGOL

Mae blaenoriaethau a mesurau llwyddiant ein Cynllun Strategol yn cael eu llywio gan ein proses gynllunio flynyddol a'u cyflawni trwy ein his-strategaethau a chynlluniau sefydliadol. Wrth wraidd ein dull o fuddsoddi mae ein Cynllun Ariannol pum mlynedd.

Rydym yn monitro perfformiad ac iechyd sefydliadol yn barhaus trwy ein cyflwyniadau Gwybodaeth Rheoli, fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac adroddiadau i bwyllgorau ein Cyngor Prifysgol.